

BARRINGTON, DAINES (1727/1728 - 1800), barnwr, hynafiaethydd, a naturiaethwr

Enw: Daines Barrington

Dyddiad geni: 1727/1728

Dyddiad marw: 1800

Rhiant: John Shute Barrington

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: barnwr, hynafiaethydd, a naturiaethwr

Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Cyfraith; Natur ac Amaethyddiaeth

Awdur: William Llewelyn Davies

Disgrifir ei yrfa yn weddol lawn yn y *D.N.B.* - mab i Shute, is-iarll 1af Barrington, ydoedd. Brawd iau i Daines Barrington oedd Shute Barrington, a fu'n esgob Llandaf o 1769 hyd 1782. Er nad Cymro mohono, daeth i gysylltiad clos â Chymru ac i ddylanwadu ar ei bywyd mewn rhai cyfeiriadau, gan astudio a hyrwyddo astudiaeth ei hanes a'i hynafiaethau. O 1757 am dros ugain mlynedd bu'n farnwr cylchdaith Môn, Caernarfon, a Meirionnydd (y Sesiwn Fawr); yn ddiweddarach yr oedd yn farnwr yng nghylchdaith Caer - yn ystod y cyfnod hwnnw y bu'n cydeistedd â'r barnwr ([yr arglwydd](#)) [Kenyon](#) i glywed apêl am ohirio praw deon Llanelwy, sef [William Davies Shipley](#). Deuai'r swyddi hyn ag ef yn fynych i Ogledd Cymru, a phan nad oedd ar gylchdaith gohebai â rhai o brif hynafiaethwyr a naturiaethwyr y wlad.

Yr oedd yn awyddus am gael gweld ffrwyth yn dyfod o astudiaethau [Evan Evans](#) ('Ieuan Brydydd Hir') i lenyddiaeth gynnar Cymru; efe (a'r esgob Thomas Percy) fu'n foddion i ddyfod â gwaith [Evan Evans](#) i sylw Thomas Gray a Samuel Johnson (*Cymm.*, 1951, 69). Ef hefyd oedd y cyntaf i gyhoeddi gwaith [Syr John Wynn](#), *The history of the Gwydir family*^[G]; fe'i cyhoeddodd y tro cyntaf yn 1770, gyda nodiadau, a'r eiltro (yn 1781) fel rhan o gyfrol yn dwyn y teitl *Miscellanies by the Honourable Daines Barrington*. Yr oedd yn aelod o Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, yn F.S.A., ac yn F.R.S. Ymhlith ei gyfraniadau i gyhoeddiad y Royal Society yr oedd *Letter from the Hon. Daines Barrington, F.R.S., ... giving an Account of some Experiments made in North Wales [yn ardal Arennig, sir Feirionnydd] to ascertain the different Quantities of Rain which fell at the same Time, at different Heights*. Darllenwyd hwn (y mae copi yn N.L.W. MS. 12416) yng nghyfarfod y gymdeithas ar 6 Mehefin 1771. Cyhoeddwyd ei 'Notes on the Language of Birds' gan [Thomas Pennant](#) yn ei *British Zoology*.

Cadwyd rhai o llythyrau Barrington at gyfeillion yng Ngogledd Cymru yn N.L.W. MS. 2065 (llythyr, 19 Hydref 1775, at [Paul Panton yr hynaf](#) - ynglyn â [Syr John Wynn](#) o Wydir, Inigo Jones, a phont Llanrwst), yn N.L.W. MS. 3484 (llythyr 8 Mawrth 1770, at [Paul Panton](#) eto - yn hwn y mae'n galw [Edward Lhuyd](#) '...one of the greatest men that ever existed for philological learning ... also ... a very distinguished fossilist'), ac yn N.L.W. MS. 12416 (llythyrau at [John Lloyd](#), F.R.S., Wigfair - yn un o'r llythyrau hyn dywed Barrington y gall drefnu i Lloyd gael copi gan [Paul Panton](#) o'r ohebiaeth a fu rhwng [Syr John Wynn](#) a [Syr Hugh Myddelton](#); mewn llythyr arall y mae'n gofyn i [Lloyd](#) ddychwelyd iddo 'MS. Memoirs of [Owen Glendower](#)'). Cyfeirir ato yn llythyrau [Morrisiaid Môn](#) - gweler y mynegeion gan [Hugh Owen](#); 'a great antiquary and lover of British antiquities' medd [Lewis Morris](#) amdano mewn un llythyr (ii, 344). Bu farw 14 Mawrth 1800.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

At y cyfeiriadau a roddwyd uchod, ychwaneger W. R. Williams, *The history of the Great Sessions in Wales, 1542-1830, together with the lives of the Welsh judges* (Brecknock 1899)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [40159225](#)

Wikidata: [Q667280](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>^[G]

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

